

Cartrefi Clyd i Gymru

Cafodd yr erthygl hon ei chyhoeddi'n wreiddiol ar 30 Mawrth 2017. Mae'n cael ei hailbostio cyn y Ddadl Aelodau Unigol ar effeithlonrwydd ynni yn y cartref a thlodi tanwydd yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mehefin 2017.

[View this post in English | Darllenwch yr erthygl yma yn Saesneg](#)

11/05/17

Gyda nifer o'r cyflenwyr ynni mawr yn cyhoeddi cynnydd yng nghost trydan a nwy yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae tlodi tanwydd yn ôl yn y penawdau. Er na all Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar gost ynni na gwneud i bobl newid cyflenwyr, fe all, ac mae yn cyflwyno rhaglenni sy'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni, lleihau tlodi tanwydd a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Beth yw tlodi tanwydd?

Mae person yn byw mewn tlodi tanwydd os oes angen iddo wario mwy na 10% o'i incwm cartref ar gostau ynni i wresogi ei gartref i safon foddhaol, ac mewn tlodi tanwydd difrifol os oes rhaid iddo wario 20% neu fwy. Mae



Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu gwahanol [ddiffiniad o dlodi tanwydd](#) yn seiliedig ar y dangosydd Incwm Isel Costau Uchel (LIHC), ond dim ond yn Lloegr y mae hwn yn cael ei ddefnyddio.

Yn 2016, roedd Llywodraeth Cymru yn [amcangyfrif](#) bod tua 23% o gartrefi yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd, sy'n cyfateb i tua 291,000 o gartrefi.

Y Rhaglen Cartrefi Clyd

Ym mis Ionawr cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [fuddsoddiad](#) o £40 miliwn yn ychwanegol dros y pedair blynedd nesaf i 'wneud hyd at 25,000 o gartrefi ledled Cymru'n fwy ynni effeithiol ac i roi hwb i fentrau twf gwyrdd eraill'.



Mae [Rhaglen Cartrefi Clyd](#) Llywodraeth Cymru, sy'n yn cynnwys y cynlluniau Nyth ac Arbed, yn darparu cyllid ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni i gartrefi incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ledled Cymru.

Mae [Nyth](#) yn gynllun a arweinir gan alw sy'n darparu cyngor a chyllid i helpu i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau tlodi tanwydd. Dechreuodd yn 2011 a chymerodd le'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES). Nwy Prydain sy'n rheoli'r cynllun Nyth a chaiff rhai gwasanaethau eu darparu gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae gwelliannau effeithlonrwydd ynni am ddim yn canolbwyntio ar y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni, lle mae pobl sy'n derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd yn byw. Mae'r contract ar gyfer y cynllun Nyth yn dod i ben ar 31 Awst 2017, a chafwyd [ymgyngoriad cyhoeddus](#) ynghylch cynigion ar gyfer ei olynu.

Mae [Arbed](#) yn gynllun sy'n seiliedig ar ardal, sy'n darparu mesurau effeithlonrwydd ynni drwy brosiectau lleol mewn cymunedau difreintiedig. Caiff rhai o'r prosiectau o dan y cynllun eu darparu gan reolwyr cynllun wedi'u caffael, caiff eraill eu darparu drwy awdurdodau lleol. Mae'r mathau o welliannau y gellir eu cyflawni o dan Arbed yn cynnwys insiwleiddio waliau solet ac uwchraddio boeleri a systemau gwresogi. Mae Arbed wedi defnyddio cyllid sylweddol yr Undeb Ewropeaidd.

Strategaeth Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ddileu tlodi tanwydd, cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol, ym mhob cartref yng Nghymru erbyn 2018. Mae'r targed hwn yn cael ei nodi yng nghyhoeddiad 2003 Llywodraeth Cymru, [Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru](#). Roedd yn un o ofynion Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 bod Llywodraeth Cymru yn pennu targed.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [Strategaeth Tlodi Tanwydd](#) yng Ngorffennaf 2010. Mae'r strategaeth yn disgrifio beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Mae strategaeth effeithlonrwydd ynni Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2016–2026, [Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni Cymru](#), yn mynd i'r afael â fforddiadwyedd, sicrwydd cyflenwad ynni a'r angen am ddatgarboneiddio, yn ogystal â chanolbwyntio ar dwf economaidd sy'n gysylltiedig â swyddi a sgiliau 'gwyrdd'. Mae'r strategaeth yn pwysleisio bod gwella effeithlonrwydd ynni yn rhan allweddol o



gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#). O dan y Ddeddf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o [ddangosyddion cenedlaethol](#) sydd wedi'u cynllunio i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant. Mae un o'r dangosyddion yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni, ac mae'n mesur canran yr anheddau â pherfformiad ynni digonol.

Erthygl gan [Chloe Corbyn](#) a [Jonathan Baxter](#), Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Llun o Flickr gan Jeremy Segrott. Dan drwydded Creative Commons.

